Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

28 Medi 2023

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Annwyl Syr/Fadam

**Ymchwiliad Cymru Wrth-hiliol – ymateb ymgynghori i faes polisi addysg**

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yw'r corff cyhoeddus sy'n gweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr addysg uwch. Rydym yn rheoleiddio lefelau ffioedd darparwyr addysg uwch, yn sicrhau bod fframwaith ar waith i asesu ansawdd addysg uwch ac yn craffu ar berfformiad prifysgolion a darparwyr dynodedig eraill. Rydym hefyd yn darparu cyllid ar gyfer addysgu, ymchwil ac arloesi mewn addysg uwch, ac yn defnyddio ein dylanwad a'n harbenigedd i helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch sydd hefyd yn dwyn manteision cymdeithasol ac economaidd ehangach. Rydym yn croesawu'r cyfle hwn i ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i Gymru Wrth-hiliol fel y mae'n berthnasol i addysg uwch.

Rydym wedi nodi ein hymatebion yn erbyn y cwestiynau a ddarparwyd ar gyfer yr ymchwiliad.

**Effeithiolrwydd camau Llywodraeth Cymru wrth gyflawni'r cynllun, gan gynnwys yr hyn sy'n cael ei wneud i 'arwain drwy esiampl' o ran mabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol a thrawslywodraethol ynghylch hiliaeth.**

Rydym ni o'r farn bod y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (y Cynllun) yn ddatganiad eglur o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni Cymru Wrth-hiliol. Mae'r Cynllun yn nodi disgwyliadau eglur ar gyfer Cymru, Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'r camau gweithredu byrdymor i sicrhau y cyflawnir canlyniadau'n gyflym a'i gwneud yn bosibl gwneud gwaith adolygu parhaus i gyrraedd y nod erbyn 2030.

Rydym yn croesawu bod Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio at y Cynllun yn llythyr cylch gwaith CCAUC 2023-24, gan felly sicrhau dull 'cydgysylltiedig' o ddatblygu polisi ac ailgadarnhau pwysigrwydd cyfraniad addysg uwch at y Cynllun.

Mae CCAUC wedi defnyddio nodau a chamau gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru i lywio'i ddatblygiadau polisi gwrth-hiliaeth. Rydym yn croesawu'r dull trawslywodraethol ac, er bod ein camau gweithredu ni'n ymwneud yn bennaf ag addysg uwch, rydym yn cydnabod ein bod yn cael ein herio i gyfrannu at feysydd eraill a gwaith arall gyda phartneriaid eraill. Rydym yn disgwyl, lle'r ydym wedi ein henwi fel partneriaid mewn meysydd heblaw am addysg e.e. ceiswyr lloches a ffoaduriaid, y bydd manteision i gydweithio a gwersi i'w dysgu o hynny. Rydym yn croesawu dull cynhwysol Llywodraeth Cymru wrth ein cynnwys yn y drefn ar gyfer adrodd wrth Grŵp Atebolrwydd y Cynllun i ddarparu sicrwydd a chraffu ar ein cynnydd yn erbyn y nodau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfathrebu mewn modd tryloyw ynghylch y cynnydd tuag at nodau'r Cynllun, i sicrhau bod y cynlluniau gweithredu ynddo'n cael eu cwblhau ar fyrder.

**Cynnydd a threfniadau monitro'r Cynllun, gan gynnwys rôl y sector cyhoeddus (awdurdodau lleol, iechyd, addysg), y trydydd sector a, phan fo'n gymwys, y sector preifat.**

Rydym yn croesawu'r ddau nod penodol ar gyfer addysg uwch a nodir yn y Cynllun. Rydym yn parhau i ddarparu diweddariadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru ar gynnydd yn erbyn y nodau hyn. Mae ein gwaith i fonitro camau gweithredu prifysgolion yn goleuo ein hadroddiadau ac yn darparu sicrwydd ynghylch camau gweithredu a chynnydd.

Fe ddarparom ni gyflwyniad ar gyfer Grŵp Atebolrwydd Llywodraeth Cymru ar 26 Mai 2023 i roi diweddariad i'r grŵp am y camau gweithredu ar gyfer addysg uwch yn y Cynllun. Cawsom adborth ar flaenoriaethau posibl ar gyfer y dyfodol i ni eu hystyried.

Darperir atebolrwydd CCAUC am gynnydd yn erbyn y Cynllun trwy adroddiadau rheolaidd i Gyngor CCAUC.

Caiff rhai o gamau gweithredu pellach CCAUC yn erbyn y nodau eu disgrifio isod:

<u>Nod un: Gall staff a myfyrwyr ddisgwyl i'w profiad o AU fod yn gadarnhaol, ni waeth beth fo'u cefndir hil ac ethnig.</u>

- Fe sefydlom ni rwydwaith gwrth-hiliol ar draws y sector addysg uwch dan arweiniad Advance HE i rannu arfer da o ran ymdrin ag aflonyddu hiliol a hybu diwylliant gwrth-hiliol (Chwefror 2023). Mae'r rhwydwaith yn cynnwys staff a myfyrwyr â phrofiad personol a/neu arbenigedd ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Rydym wedi darparu cyllid grant ar gyfer dosbarth meistr i Is-Gangellorion i sicrhau arweinyddiaeth a newid mewn diwylliant.
- Byddwn yn cyhoeddi adroddiad monitro data cydraddoldeb hiliol/ gwrth-hiliaeth blynyddol o 2023, i fonitro cynnydd tuag at Gymru wrth-hiliol mewn addysg uwch.
- Byddwn yn defnyddio ein sbardunau polisi a chyllid, yn ogystal â dadansoddi ansoddol, fel y bo'n briodol, i gyfrannu at y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys, ymhlith eraill, Cymru Gyfartal a Chymru o Gymunedau Cydlynus.

Nod dau: Gwell defnydd o'r sbardunau sydd ar gael i hyrwyddo diwylliant gwrth-hiliol ym maes addysg uwch.

- Fe ymrwymodd yr holl brifysgolion yng Nghymru i aelodaeth o'r siarter cydraddoldeb hiliol erbyn mis Mawrth 2023. Nid dyma'r sefyllfa yng ngwledydd eraill y DU.
- Rydym wedi darparu cyllid grant ar gyfer Advance HE i roi cymorth gwrth-hiliaeth mewn addysg uwch, gyda hynny'n cael ei oleuo gan ymarfer ledled y DU. Rydym yn rhoi £1m yn flynyddol i brifysgolion, gyda chyllid cyfatebol yn cael ei ddarparu gan y prifysgolion, i wneud cynnydd ar fyrder o ran mynd i'r afael â gwrth-hiliaeth.
- Mae llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru i CCAUC yn cadarnhau ei disgwyliad y dylai'r holl brifysgolion gyflawni siarter cydraddoldeb hiliol erbyn mis Gorffennaf 2025.
- Mae Cylchlythyr W23/20HE Cefnogi gwrth-hiliaeth mewn addysg uwch: canllawiau a dyraniadau 2023/24 yn nodi disgwyliad bod prifysgolion yn cyflwyno adroddiadau i ni ar y modd y maent yn ymdrin ag anghydraddoldebau, gan gynnwys gwahaniaethau mewn tâl ac adolygu polisïau a gweithdrefnau recriwtio presennol o safbwynt gwrth-hiliol. Byddwn yn monitro eu cynnydd.
- Fe gyhoeddom ni gylchlythyr W23/06HE: Addysg uwch ddiogel a chynhwysol: cefnogi cydraddoldeb ac addysg amrywiaeth a oedd yn cynnwys ein cynnydd tuag at nodau'r Cynllun, gan gydnabod natur drawstoriadol yr her i gyflawni Cymru gyfartal ac amrywiol.

**Cynnydd yr Uned Gwahaniaethau ar sail Hil, a phenderfynu a oes bylchau o ran casglu data ac a yw'r data'n cael eu dadansoddi'n effeithiol.**

Hyd yma, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gynnydd penodol a wnaed gan yr Uned Gwahaniaethau ar sail Hil o ran coladu data fel y mae'n ymwneud ag addysg uwch neu'n goleuo addysg uwch. Rydym yn cytuno bod rhaid i ddata meintiol a gwybodaeth ansoddol gyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer gweithredu'n effeithiol a monitro a gwerthuso cynnydd mewn modd effeithiol.

Rydym wedi dadansoddi data cydraddoldeb hiliol ar gyfer addysg uwch y byddwn yn ei gyhoeddi'n flynyddol.

Mae prifysgolion yn cyflwyno data ar staff a myfyrwyr i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), gan gynnwys fel y mae hyn yn berthnasol i nodweddion gwarchodedig. Mae'n ofynnol i brifysgolion ddadansoddi eu data sefydliadol ar ethnigrwydd staff a myfyrwyr fel rhan o'u ceisiadau am y Siarter Cydraddoldeb Hiliol.

**Pa sianelau cyfathrebu sydd wedi'u sefydlu i sicrhau bod pobl â phrofiad bywyd yn cael gwybod am gynnydd y cynllun a pha newidiadau sy'n digwydd o ganlyniad i'r cynllun?**

Mae Grŵp Atebolrwydd y Cynllun yn sicrhau bod pobl â phrofiad personol yn cael eu hysbysu ynghylch cynnydd ac yn craffu ar gynnydd tuag at ei nodau.

Mae ein cylchlythyr cyllido (W23/20HE) yn nodi ein disgwyliadau bod prifysgolion yn ymgysylltu â myfyrwyr, gan gynnwys y rhai â phrofiad personol. Mae'r dull hwn yn

cyfrannu at y ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys cydweithio a chynnwys.

Gan mai'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) newydd fydd yn goruchwylio addysg, hyfforddiant ac ymchwil ôl-16 o fis Ebrill 2024 rydym wedi dechrau cydweithio'n agosach gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ar draws y sector ôl-16 ac rydym yn aelodau o Grŵp Llywio'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar gyfer Addysg Bellach. Mae aelodaeth CCAUC yn ei gwneud yn bosibl cael dealltwriaeth fwy eglur am faterion, camau gweithredu a chyfleoedd ar draws y sector addysg ôl-16.

Byddem yn croesawu cyfleoedd pellach i ymgysylltu â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus yn uwchgynadleddau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru. Gallai'r uwchgynadleddau hyn fod â ffocws thematig, rhannu arfer a bod â chanlyniadau wedi'u nodi'n glir.

**Effeithiolrwydd y Cynllun yn ei flwyddyn gyntaf, gan gynnwys a yw camau gweithredu wedi cael eu cyflawni, beth yw'r canlyniadau allweddol hyd yn hyn, a darganfod pam na weithredwyd camau sy'n weddill.**

Mae'r Cynllun wedi bod yn ysgogydd arwyddocaol, cyhoeddus, ymarferol i weithredu. Rydym wedi nodi sut y mae CCAUC a'r sector addysg uwch wedi ymateb i'r nodau a'r camau gweithredu yn y cwestiynau uchod. Rydym wedi cyfeirio ato mewn trafodaethau polisi gyda chyrff cyllido a rheoleiddio addysg uwch eraill y DU, gan nodi nad oes disgwyliadau cyfatebol gan lywodraethau mewn rhannau eraill o'r DU.

**Helpu i ddeall yn well pa ymyriadau eraill sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun ac a oes rhwystrau rhag gweithredu'r cynllun.**

- Byddem yn croesawu ymagwedd gydlynol tuag at hyfforddiant yn y meysydd a gwmpesir gan y Cynllun ar draws y sector cyhoeddus.
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cyfleoedd hyfforddi ledled Cymru gyfan y mae'n eu caffael yn cynnwys addysg uwch ac addysg ôl-16 wrth i ni symud tuag at sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.
- Byddai cyfleoedd hyfforddi sy'n cynnwys addysg uwch yn helpu i reoli baich y disgwyliadau ar ddarparwyr hyfforddiant y trydydd sector a darparwyr hyfforddiant eraill a sicrhau digon o adnoddau.

**O ystyried pwysigrwydd croestoriadedd, bydd yr ymchwiliad hefyd yn ystyried sut y cafodd hunaniaethau croestoriadol pobl eu hystyried wrth ddatblygu a gweithredu'r Cynllun.**

Dylai Llywodraeth Cymru ddisgrifio'n glir a mynd ati'n barhaus i adolygu sut y mae ei hamryw strategaethau a chynlluniau sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn perthyn i'w gilydd, gan ystyried pwysigrwydd un Ddeddf Cydraddoldeb a materion croestoriadedd. Dylai cynllun Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru gael ei integreiddio'n llawn yn natblygiad pellach y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

**Manylion cyswllt**

Savanna Jones, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Rheolwr Ehangu Mynediad a Chynhwysiant.

Yn ddiffuant

**David Blaney**